# Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

**2017 dccc 3**

## RHAN 4

GWAREDIADAU TRETHADWY A WNEIR MEWN LLEOEDD HEBLAW SAFLEOEDD TIRLENWI AWDURDODEDIG

## PENNOD 2

Y WEITHDREFN AR GYFER CODI'R DRETH

### 50 Pŵer i ddyroddi hysbysiad codi treth heb ddyroddi hysbysiad rhagarweiniol

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo ACC—

(a) wedi ei fodloni bod person yn bodloni'r amod ar gyfer codi treth mewn cysylltiad â gwarediad trethadwy a wnaed yn rhywle nad yw'n safle tirlenwi awdurdodedig, nac yn rhan o safle o'r fath, a

(b) o'r farn ei bod yn debygol y collir treth os yw'n gweithredu o dan adrannau 48 a 49.

(2) Caiff ACC ddyroddi hysbysiad codi treth i'r person heb ddyroddi hysbysiad rhagarweiniol yn gyntaf.

(3) Rhaid i hysbysiad codi treth a ddyroddir o dan yr adran hon gynnwys—

(a) yr wybodaeth a bennir yn adran 49(5), a

(b) rhesymau ACC dros ddyroddi'r hysbysiad heb ddyroddi hysbysiad rhagarweiniol yn gyntaf.

(4) Ni chaiff ACC ddyroddi hysbysiad codi treth o dan yr adran hon fwy na 4 blynedd ar ôl i ACC ddod yn ymwybodol o unrhyw warediad trethadwy y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 50. (See end of Document for details)*

(5) Ni chaiff ACC ychwaith ddyroddi hysbysiad codi treth o dan yr adran hon fwy nag 20 mlynedd ar ôl yr adeg yr ymddengys i ACC y gwnaed unrhyw warediad trethadwy y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 50 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

**I2** A. 50 mewn grym ar 1.4.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 3**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 50.